Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

3 Medi 2020

Annwyl Rieni / Ofalwyr,

GWISGO GORCHUDD WYNEB

Mae yna lawer o drafod wedi bod o gwmpas y defnydd o orchuddion wyneb a'u defnydd mewn ysgolion yng Nghymru dros yr wythnos ddiwethaf. Penderfyniad Llywodraeth Cymru oedd i awdurdodau lleol ac ysgolion i asesu'r risg yn unol â'r sefyllfa unigol ym mhob ysgol.

Eisoes, mae disgwyl i ddisgyblion wisgo gorchudd os ydynt yn **teithio ar fysys ysgol benodedig** oni bai'r bod rheswm meddygol yn eu heithrio rhag gwneud.

Wrth asesu risg yn barhaol yn Ysgol Gyfun Gwyr ac adolygu'r sefyllfa ar ôl dychweliad Blwyddyn 7 a'r Chweched i safle'r Ysgol heddiw, mae'r Ysgol wedi penderfynu **diweddaru ein disgwyliadau** wrth i ddisgyblion deithio drwy **ardaloedd poblog uchel** ar safle'r Ysgol.

O Ddydd Llun 7 Medi, bydd **disgwyl i ddisgyblion Ysgol Gyfun Gŵyr ddod â gorchudd wyneb personol gyda nhw bob dydd**. **Bydd disgwyl** i ddisgyblion wisgo gorchudd wyneb mewn ardaloedd poblog uchel, wrth **deithio ar hyd y coridorau, mynd i fyny grisiau mewnol, ymweld â'r toiledau, neu wrth ymgasglu mewn gofod cyfyngedig o dan do**, oni bai'r bod rheswm meddygol yn eu harbed rhag gwneud.
Os yw eich plentyn yn defnyddio gorchudd aml-ddefnydd, disgwylir iddynt fod yn lan pob dydd ac yn addas i'w defnyddio mewn ysgol. Bydd yn rhaid i ddisgyblion ddilyn y camau canlynol wrth dynnu a gwisgo gorchudd:

1. Wrth wisgo ac wrth dynnu'r gorchudd, bydd rhaid i'r disgybl olchi ei ddwylo neu eu diheintio.
2. Ni ddylai'r disgybl gyffwrdd â blaen y gorchudd tra'n ei wisgo neu ei dynnu.
3. Bydd angen gwaredu gorchudd dros dro mewn bin.
4. Bydd rhaid gosod gorchuddion 'aml-ddefnydd' mewn bag plastig pob tro y maent yn tynnu'r gorchudd, ac yna golchi eu dwylo neu ddiheintio eto cyn mynd i'r ystafell ddosbarth. Disgwyliwn i rieni ddarparu'r bag plastig i'w plentyn.

Ni fydd disgwyl i ddisgyblion i wisgo gorchudd wyneb ar y **buarth**, neu wrth **fwyta eu brechdanau**.

Does **dim disgwyl** i ddisgyblion wisgo mygydau yn yr **ystafell ddosbarth.**
Mae yna **gamau pendant gennym yn yr ystafelloedd dosbarth** i sicrhau diogelwch, gan na fydd cynnal pellter cymdeithasol yn bosib ym mhob achos oherwydd y niferoedd o ddisgyblion yn y dosbarth (yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Abertawe):

- Diheintio dwylo ar y ffordd i mewn ac allan o bob ystafell.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

- Awyru pob ystafell.
- Disgyblion yn eistedd yn wynebu'r blaen.
- Eistedd ochr yn ochr gyda chyd-ddisgyblion ac nid yn eu hwynebu mewn gwersi.
- Glanhau yn aml, gyda disgyblion ac athrawon yn glanhau 'wrth iddynt fynd'.
- Disgyblion i ddod a'u hoffer eu hunain – dim rhannu offer.

Mae'r defnydd o orchudd wyneb mewn ardaloedd poblog uchel yn **un strategaeth ychwanegol** i leihau risg o ledaenu'r haint. Mae'n allweddol hefyd bod ein disgyblion yn glynu at y **camau iechyd unigol** i gyd, sydd at ei gilydd, yn ein helpu **i leihau'r risg o ledaenu'r firws**:

- Golchi neu ddiheintio dwylo yn aml
- Cynnal hylendid anadlol da drwy hyrwyddo'r dull 'ei ddal, ei daflu, ei ddifa'.
- Cynnal pellter cymdeithasol gymaint ag sy'n bosib.
- Dilyn y system un ffordd.
- Peidio â chymysgu gyda disgyblion o flynyddoedd arall.

Byddwn yn parhau i atgoffa'r disgyblion o'r camau uchod yn feunyddiol a gofynnwn i chi fel rhieni ein cefnogi, fel eu bod yn datblygu yn arferion da yn gyflym iawn. Dyma'r ffordd orau o ddiogelu ein hiechyd a diogelwch ar y safle.

Yn ogystal, yn Ysgol Gyfun Gŵyr rydym wedi sicrhau **trefniadau penodol** i gefnogi'r strategaethau uchod er mwyn **lleihau'r risg o ledaenu'r firws**:

- Disgyblion CA3 yn cadw mewn grwpiau blwyddyn ar wahân yn ystod gwersi
- Awyru'r adeilad ac ystafelloedd yn ystod y dydd
- Cadw disgyblion ar wahân yn ystod cyfnodau egwyl a chinio - ni fydd caniatâd i ddisgyblion gymysgu y tu allan i'w blynyddoedd tra yn yr ysgol
- Amserau gwahanol i bob blwyddyn i fynd at y bysys ar ddiwedd dydd
- Glanhau arwynebau yn aml, gyda disgyblion ac athrawon yn glanhau 'wrth iddynt fynd'.

Byddwn yn parhau i gynnal ethos croesawgar a chynnes yn yr ysgol ac yn trafod pwysigrwydd yr holl gamau rydym wedi mabwysiadu gyda'n disgyblion. Os oes rhesymau meddygol pam na all ddisgybl ddefnyddio gorchudd, cysylltwch â ni. Os oes unrhyw bryder pellach gennych am unrhyw agwedd arall, yna cysylltwch gyda Phennaeth Blwyddyn eich plentyn.

Yn gywir,

Pennaeth

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

3 September 2020

Dear Parent / Carer,

FACE COVERINGS

There has been a lot of discussion around the use of face coverings and their use in schools in Wales over the past week. The Welsh Government's decision was for local authorities and schools to assess the risk according to the individual situation in each school.

Already, in Ysgol Gyfun Gŵyr, pupils are expected to wear a face covering if travelling on designated school buses unless a medical reason exempts them from doing so.

By continually assessing risk at Ysgol Gyfun Gwyr and reviewing the situation following Year 7 and Sixth's return to the School site today, the School has decided to update our expectations as pupils travel through communal areas on the School site.

From Monday 7 September, Ysgol Gyfun Gŵyr pupils **will now be expected to bring face coverings daily** to School. Pupils will be expected to wear these coverings in **communal areas**, when travelling along **corridors**, using **stairwells**, visiting the **toilets**, or when **congregating** in a restricted indoor space, unless they are medically excluded from doing so.

If your child uses a multi-use covering, it is expected to be clean every day and suitable for use in school. Pupils will need to follow the following steps when removing and wearing a covering:
1. When wearing and removing the covering, the pupil will have to wash or disinfect their hands.
2. The pupil must not touch the front of the covering while wearing or removing it.
3. Single use coverings will need to be disposed of in a bin.
4. 'Multi-use' coverings must be placed in a plastic bag when removed, and then hands must be washed or disinfected before entering the classroom. We expect parents to provide their child with a container for this purpose.

Pupils will **not be expected** to wear a face covering on the **school yard**, or when **eating** their sandwiches, or on the playgrounds.

Pupils are **not expected** to wear masks **in the classroom**.
We have **processes in place** in our classrooms to ensure safety, as maintaining social distance may not be possible in all cases due to the numbers of pupils in the classroom (in line with Welsh Government and Swansea Authority guidelines):
• Disinfecting hands on the way in and out of each room.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

• Ventilating all rooms.
• Pupils sitting facing the front.
• Sitting alongside fellow pupils and not facing them in lessons.
• Cleaning often when necessary, with pupils and teachers cleaning 'as they go'.
• Pupils bringing their own resources - no sharing of equipment.

The use of face coverings in highly populated areas is one additional strategy to reduce the risk of spreading the infection. It is also vital that our pupils adhere to all of the individual health actions that, in the main, help us reduce the risk of spreading the virus:
• Frequent hand washing or disinfection
• Maintaining good respiratory hygiene by promoting the 'hold it, throw it away' approach.
• Maintaining social distancing as much as is possible.
• Following the one way system.
• Not mixing with pupils from other years.
We will continue to remind the pupils of the above matters daily and ask you as parents to support us, so that your children develop good habits very quickly. This is the best way to protect our health and safety on site.

In addition, at Ysgol Gyfun Gwyr we have put in place specific arrangements to support the above strategies to reduce the risk of spreading the virus:
• KS3 pupils keep in separate year groups during lessons
• Ventilating the building during the day
• Keeping pupils separate during break and lunch periods - pupils will not be allowed to mix outside their years while at school
• Different times for each year to get to the buses at the end of the day
• Cleaning surfaces frequently, with pupils and teachers cleaning 'as they go'.

We will continue to maintain a welcoming and warm ethos in the school and discuss the importance of all the steps we have taken with our pupils. If there are medical reasons why a pupil cannot use a face covering, please contact us. If you have any further concerns about any other aspect, please contact your child's Head of Year.

Yours faithfully

Head

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg